**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Crynodeb o Fil

# Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru)

Gorffennaf 2015

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales

Y Gwasanaeth Ymchwil

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Mae'r Gwasanaeth Ymchwil yn darparu ymchwil a gwybodaeth arbenigol a ddiduedd er mwyn cefnogi Aelodau a phwyllgorau'r Cynulliad i gyflawni swyddogaethau craffu, deddfwriaethol a chynrychioliadol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Mae briffiau gan Wasanaeth Ymchwil yn cael eu hysgrifennu ar gyfer Aelodau'r Cynulliad a'u staff. Mae'r awduron ar gael i drafod y papurau gydag Aelodau a'u staff ond nid yw'n bosibl rhoi cyngor i'r cyhoedd. Croesawn sylwadau ar ein briffiau; os oes gennych unrhyw sylwadau gallwch eu hanfon i'r cyfeiriad post neu e-bost isod.

Gellir cael gafael ar fersiwn electronig o'r papur ar safle'r Cynulliad Cenedlaethol yn: www.cynulliadcymru.org/research

Mae copïau printiedig hefyd ar gael:

Y Gwasanaeth Ymchwil
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

E-bost: Ymchwil@cynulliad.cymru
Twitter: @SeneddYmchwil

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2015
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Rhif ymholiad: 15/1447
Rhif dogfen:15/033

# Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Crynodeb o Fil

# Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru)

Gorffennaf 2015

Philippa Watkins, Gareth Thomas,
Stephen Boyce

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales

Y Gwasanaeth
Ymchwil

# Cynnwys

**Cyflwyniad** ........ **1**

**1 Cefndir** ........ **2**

1.1. Cymhwysedd deddfwriaethol ........ 2
1.2. Amcanion polisi'r Bil ........ 3
1.3. Datblygiad y Bil ........ 3

**2. Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru): crynodeb o ddarpariaethau** ........ **5**

Rhan 1: Trosolwg ........ 5
Rhan 2: Cynhyrchion Nicotin a Thybaco ........ 5
Rhan 3: Triniaethau arbennig ........ 8
Rhan 4: Rhoi twll mewn rhan bersonol o'r corff ........ 9
Rhan 5: Gwasanaethau fferyllol ........ 9
Rhan 6: Darparu Toiledau ........ 10

**3. Goblygiadau Ariannol y Bil** ........ **11**

3.1. Crynodeb o'r costau a'r manteision cyffredinol ........ 11
3.2. Cynigion ynghylch cyfyngiadau ar ddefnyddio tybaco a chynhyrchion e-sigaréts mewn mannau cyhoeddus. ........ 13
3.3. Creu cofrestr o fanwerthwyr tybaco a chynhyrchion nicotin ........ 13
3.4. Gwahardd rhoi tybaco neu gynhyrchion nicotin i bobl ifanc o dan 18 oed ........ 13
3.5. Cyflwyno system drwyddedu ar gyfer triniaethau arbennig ........ 14
3.6. Gwahardd rhoi twll mewn rhan bersonol o'r corff i bobl ifanc o dan 16 oed ........ 14
3.7. Gwasanaethau fferyllol ........ 14
3.8. Datblygu strategaeth ar gyfer darparu toiledau cyhoeddus ........ 15

**4. Ymatebion i'r Bil** ........ **17**

# Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru)

## Cyflwyniad

Gosodwyd ***Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru)*** gerbron y Cynulliad ar 8 Mehefin 2015. Cafodd ei gyflwyno yn y Cyfarfod Llawn gan Mark Drakeford AC, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, ar 9 Mehefin 2015.

Nod y Bil yw mynd i'r afael â nifer o bryderon penodol mewn perthynas ag iechyd y cyhoedd: tybaco a chynhyrchion nicotin; 'triniaethau arbennig' (aciwbigo, rhoi twll mewn rhan o'r corff, electrolysis a thatŵio); rhoi twll mewn rhan bersonol o'r corff, gwasanaethau fferyllol; a darparu toiledau.

Mae'r Pwyllgor Busnes wedi trosglwyddo'r Bil i'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol.  Dylai'r Pwyllgor adrodd ar ei ystyriaeth Cyfnod 1 o egwyddorion cyffredinol y Bil erbyn 27 Tachwedd 2015.

Cytunodd y Pwyllgor Busnes hefyd y dylid cwblhau trafodion Cyfnod 2 erbyn 5 Chwefror 2016, ar yr amod bod y Cynulliad yn cytuno ar egwyddorion cyffredinol y Bil.

Mae'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn cynnal **ymgynghoriad** arall ar egwyddorion cyffredinol y Bil, a ddaw i ben ar 4 Medi 2015.  Dechreuodd y Pwyllgor glywed tystiolaeth lafar ar 1 Gorffennaf 2015.

# 1 Cefndir

## *1.1. Cymhwysedd deddfwriaethol*

Dywed y Memorandwm Esboniadol (yn adran 2) fod testun y Bil yn dod o fewn y rhestr o byncniau yn Rhan 1 o Atodlen 7 i *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006*, a'i fod felly o fewn cymhwysedd y Cynulliad.  Mae'r Memorandwm yn rhestru'r pynciau perthnasol yn Atodlen 7 fel a ganlyn:

> **Pwnc 9 'Iechyd a Gwasanaethau Iechyd'**:
>
> "Promotion of health. Prevention, treatment and alleviation of disease, illness, injury, disability and mental disorder. Control of disease. Family planning. Provision of health services, including medical, dental, ophthalmic, pharmaceutical and ancillary services and facilities. Clinical governance and standards of health care. Organisation and funding of national health service."
>
> **Pwnc 12 'Llywodraeth Leol'**:
>
> "…Powers and duties of local authorities and their members and officers…"
>
> **Pwnc 15 'Lles Cymdeithasol'**:
>
> "…Protection and well-being of children (including adoption and fostering) and of young adults…"

Mae'r Memorandwm hefyd yn nodi bod Rhan 2 o'r Bil yn cynnwys darpariaethau sy'n dileu swyddogaethau cyn cychwyn Gweinidog y Goron ac sydd felly yn gofyn am gydsyniad yr Ysgrifennydd Gwladol o dan Ran 3 o Atodlen 7 i *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006*.  Pan gyflwynwyd y Bil, roedd trafodaethau'n mynd rhagddynt â Llywodraeth y DU, gyda'r nod o gael y cydsyniad hwnnw.  Mae'r Memorandwm yn nodi bod Llywodraeth Cymru yn rhagweld y daw trafodaethau ar gydsyniad i ben yn ystod y gwaith o graffu ar Gyfnod 1 y Bil.

Ysgrifennodd y Llywydd at y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ar 23 Mehefin 2015[1] yn nodi bod y Bil, yn ei barn hi, o fewn cymhwysedd yn gyffredinol, ond bod angen cydsyniad yr Ysgrifennydd Gwladol ar gyfer darpariaethau sy'n ymwneud â lefelau'r dirwyon yn adrannau 4(7), 5(6) ac 11(7) a pharagraffau 6 a 9 o Atodlen 1, fel yr amlygwyd yn y Memorandwm Esboniadol. Gan nad oedd cydsyniad wedi'i sicrhau ar yr adeg honno, ni fyddai'r rhannau hyn o'r Bil, yn ei barn hi, o fewn cymhwysedd.  Mynegodd bryder hefyd ynghylch materion posibl o ran hawliau dynol mewn perthynas â'r ddarpariaeth yn Rhan 2, Pennod 1 o'r Bil i wahardd ysmygu mewn gweithle sydd hefyd yn annedd, h.y. cartref person.  Er bod y Llywydd o'r farn bod cydbwysedd rhesymol yn y Bil rhwng hawliau dynol ysmygwyr a chyflogeion, pwysleisiodd ei bod yn bwysig i'r Cynulliad ystyried y mater yn ofalus.

---

[1] Darparwyd fel papur i'w nodi yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 6 Gorffennaf 2015 http://abms/mgChooseDocPack.aspx?ID=2704

## 1.2. Amcanion polisi'r Bil

Nod y Bil yw bwrw ymlaen â rhai o bolisïau iechyd y cyhoedd Llywodraeth Cymru, gan gynnwys:

- hyrwyddo'r dirywiad parhaus yn nifer y plant a phobl ifanc sy'n dechrau ysmygu a dadnormaleiddio ysmygu;
- sicrhau bod 'triniaethau arbennig' (aciwbigo, rhoi twll mewn rhan o'r corff, electrolysis a thatŵio) yn cael eu rheoleiddio'n well;
- gwarchod plant a phobl ifanc rhag niweidiau iechyd posibl o roi twll mewn rhan bersonol o'r corff;
- gwella'r broses o gynllunio a darparu gwasanaethau fferyllol a chryfhau eu rôl mewn perthynas ag iechyd y cyhoedd, a;
- gwella'r gwaith o gynllunio'r ddarpariaeth o doiledau cyhoeddus.

## 1.3. Datblygiad y Bil

Cyhoeddwyd **Papur Gwyrdd** Llywodraeth Cymru ar iechyd y cyhoedd yn 2012, cyn cyhoeddi'r Bil hwn. Dilynodd **Papur Gwyn** ym mis Ebrill 2014, a oedd yn cyflwyno cyfres o gynigion ar gyfer deddfwriaeth sylfaenol ac is-ddeddfwriaeth. Ei fwriad oedd mynd i'r afael â materion sy'n ymwneud ag iechyd y cyhoedd, fel effaith tybaco, camddefnyddio alcohol a gordewdra. Cafodd y cynigion eu grwpio o dan dair thema allweddol:

1. **Gwella iechyd dros oes** drwy gyflwyno cofrestr genedlaethol ar gyfer manwerthwyr tybaco, cyfyngu ar y defnydd o e-sigaréts mewn mannau cyhoeddus, cyflwyno Isafswm Pris Uned ar gyfer alcohol, a datblygu safonau maethol ar gyfer lleoliadau penodol. Roedd hefyd yn gofyn am sylwadau cynnar ar ddeddfwriaeth i greu mannau di-fwg yn yr awyr agored a gwerthu tybaco ar-lein.
2. **Datblygu asedau cymunedol ar gyfer iechyd** drwy gynigion i gryfhau rôl Byrddau Iechyd Lleol wrth gynllunio gwasanaethau iechyd y cyhoedd a ddarperir gan fferyllfeydd cymunedol, a gwella'r mynediad i doiledau cyhoeddus.
3. **Rheoleiddio iechyd** drwy gynnig i gyflwyno Cofrestr Genedlaethol ar gyfer Triniaethau Arbennig er mwyn rheoleiddio safonau ar gyfer gweithgareddau fel rhoi twll cosmetig mewn rhan o'r corff a thatŵio.

Yn y Papur Gwyn, mae Llywodraeth Cymru yn nodi ei strategaeth ar gyfer deddfwriaeth iechyd y cyhoedd, sy'n cynnwys dau ddull penodol:

- ymagwedd gyffredinol tuag at ddeddfwriaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus fynd i'r afael ag iechyd ar draws eu swyddogaethau, a adlewyrchir yn *Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015*, a
- deddfwriaeth benodol i fynd i'r afael â phryderon penodol sy'n ymwneud ag iechyd y cyhoedd drwy Fil Iechyd y Cyhoedd.

Mae rhai o flaenoriaethau iechyd y cyhoedd Llywodraeth Cymru, fel mynd i'r afael â gordewdra ac anweithgarwch corfforol, yn cael eu datblygu mewn is-ddeddfwriaeth ac ni chânt eu cynnwys yn y Bil Iechyd y Cyhoedd. Nid yw cynigion Llywodraeth Cymru ar isafswm pris uned ar gyfer alcohol yn y Bil chwaith oherwydd yr achos cyfredol yn erbyn Llywodraeth yr Alban yn Llys Ewrop ac yn hytrach, maent yn ddarostyngedig i **Fil drafft Iechyd y Cyhoedd (Isafbris Alcohol)** Llywodraeth Cymru, a gyhoeddwyd ar gyfer ymgynghoriad ar 14 Gorffennaf 2015.

Mae'r Bil yn nodi cyfres o gynigion penodol mewn meysydd annibynnol ar y polisi iechyd y cyhoedd:

- Mae Rhan 2 o'r Bil yn ymwneud â **thybaco a chynhyrchion nicotin** ac mae'n cynnwys nifer o elfennau: cyfyngu ar y defnydd o ddyfeisiau mewnanadlu nicotin fel e-sigaréts mewn mannau cyhoeddus; creu cofrestr genedlaethol o fanwerthwyr tybaco a chynhyrchion nicotin; ychwanegu at y troseddau sy'n cyfrannu at Orchymyn Mangre o dan Gyfyngiad, a; gwahardd rhoi tybaco/cynhyrchion nicotin i bobl o dan 18 oed.
- Mae Rhan 3 yn creu cynllun trwyddedu gorfodol ar gyfer ymarferwyr a busnesau sy'n darparu '**triniaethau arbennig**', sef aciwbigo, rhoi tyllau yn y corff, electrolysis a thatŵio.
- Mae Rhan 4 yn gwahardd **rhoi tyllau mewn rhannau personol o'r corff** ar gyfer pobl o dan 16 oed.
- Mae Rhan 5 o'r Bil yn newid sut y mae Byrddau Iechyd yn gwneud penderfyniadau am **wasanaethau fferyllol** fel bod y rhain yn seiliedig ar asesiadau o angen fferyllol yn eu hardaloedd.
- Mae Rhan 6 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol baratoi strategaethau toiledau lleol yn seiliedig ar anghenion eu cymunedau ar gyfer darparu, a chael mynediad i, **doiledau cyhoeddus**.

## 2. Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru): crynodeb o ddarpariaethau

Mae'r Bil yn cynnwys saith rhan, 102 o adrannau a phedair atodlen.

### *Rhan 1: Trosolwg*

Mae Rhan 1 yn rhoi trosolwg o'r darpariaethau yn y Bil.

### *Rhan 2: Cynhyrchion Nicotin a Thybaco*

**Pennod 1 Ysmygu a defnyddio dyfeisiau mewnanadlu nicotin**

Mae'r Bil yn bwriadu hyrwyddo'r dirywiad parhaus yn nifer y plant a phobl ifanc sy'n dechrau ysmygu a sicrhau y caiff ysmygu ei ddadnormaleiddio; Bydd y Bil yn cyfyngu ar y defnydd o ddyfeisiau mewnanadlu nicotin, fel sigaréts electronig, mewn mannau cyhoeddus a gweithleoedd caeëdig a sylweddol gaeëdig, gan ddod â'r defnydd o'r dyfeisiau hyn yn unol â'r darpariaethau presennol o ran ysmygu.

Caiff Pennod 1, Rhan 1 o *Ddeddf Iechyd 2006*, mewn perthynas â Chymru, ei hailddatgan a'i hymestyn fel bod y gofynion di-fwg yn gymwys i'r defnydd o e-sigaréts yn ogystal â chynhyrchion tybaco. Felly, bydd yn drosedd defnyddio e-sigaréts mewn ardal ddi-fwg a methu ag atal y defnydd o e-sigaréts mewn ardal ddi-fwg.

Gall fod yn ofynnol i berson sy'n ysmygu tybaco neu'n defnyddio e-sigarét mewn ardal ddi-fwg neu mewn cerbyd di-fwg dalu dirwy, hyd at ac yn cynnwys, lefel 1 (£200) ar y raddfa safonol. Bydd yn ofynnol i berson (er enghraifft, person sy'n rheoli'r fangre) a geir yn euog o fethu â chymryd camau rhesymol i atal ysmygu neu ddefnyddio e-sigarét ar fangre ddi-fwg dalu dirwy, hyd at ac yn cynnwys, lefel 4 (£2,500) ar y raddfa safonol.

Mae'r Bil yn cyfyngu ar y defnydd o e-sigaréts yn unrhyw ran o annedd preifat person yn ystod yr oriau pan gaiff y rhan hwnnw o'r annedd ei ddefnyddio fel gweithle. Mae hyn yn wir hyd yn oed os na chaiff y rhan hwnnw o'r annedd ei ddefnyddio fel gweithle'n unig.

Caiff darpariaethau ar gyfer cerbydau di-fwg ac unrhyw fangreoedd di-fwg ychwanegol, gan gynnwys mannau nad ydynt yn gaeëdig, eu nodi yn y Rheoliadau. Os caiff is-ddeddfwriaeth o'r fath ei datblygu, bydd yn rhaid i Aelodau'r Cynulliad benderfynu ym mhob achos a fyddai e-sigaréts yn cael eu cynnwys o fewn mesurau o'r fath.

Rhaid i berson sy'n meddiannu neu'n rheoli mangre sicrhau y caiff arwyddion eu harddangos yn y fangre honno sy'n dangos eu bod yn fangreoedd di-fwg. Bydd yn ofynnol i berson a geir yn euog o fethu â chydymffurfio dalu dirwy, hyd at ac yn cynnwys, lefel 3 (£1,000) ar y raddfa safonol.

Drwy Reoliadau, caiff awdurdodau gorfodi eu dynodi i orfodi darpariaethau Rhan 2 Pennod 1 a chaiff swyddogion awdurdodedig eu penodi gan yr awdurdod gorfodi. Caiff swyddog awdurdodedig bwerau i fynd i mewn i fangre (neu gerbyd) yng Nghymru os credir fod trosedd wedi, neu wrthi'n, cael ei chyflawni. Ni all swyddogion awdurdodedig fynd i mewn i fangre drwy rym, na mangreoedd a ddefnyddir yn bennaf neu'n gyfan gwbl fel annedd oni bai eu bod yn cael gwarant wedi'i llofnodi gan ynad heddwch. Caiff swyddogion awdurdodedig bwerau arolygu hefyd pan maent yn mynd i mewn i fangre, a bydd unrhyw berson sy'n rhwystro swyddog awdurdodedig yn fwriadol yn cyflawni trosedd ac, os canfyddir ei fod yn euog, bydd yn rhaid iddo dalu dirwy, hyd at ac yn cynnwys, lefel 3 (£1,000) ar y raddfa safonol.

Bydd swyddogion awdurdodedig yn gallu cyflwyno hysbysiadau cosb benodedig ar gyfer rhai troseddau. Mae'r hysbysiad cosb benodedig hwn yn caniatáu i'r person a gyflawnodd y drosedd osgoi collfarn am y drosedd drwy dalu cosb benodedig. Caiff swm y gosb ei nodi yn y Rheoliadau. Fodd bynnag, ar ôl derbyn hysbysiad cosb benodedig, gall y person a gyflawnodd y drosedd ofyn am gael ei roi ar brawf yn hytrach na thalu'r hysbysiad cosb.

**Pennod 2 Manwerthwyr tybaco a chynhyrchion nicotin a Phennod 3 Atal gwerthu tybaco a chynhyrchion nicotin**

Nod y Bil yw atgyfnerthu'r pwysigrwydd o warchod pobl ifanc o dan 18 oed rhag tybaco a chynhyrchion nicotin, yn ogystal â lleihau'r risg y bydd pobl ifanc o dan 18 oed yn cael mynediad at y cynhyrchion hyn. Mae'r Bil yn cynnwys darpariaeth i sefydlu cofrestr genedlaethol o fanwerthwyr tybaco a chynhyrchion nicotin ac mae'n cynnwys darpariaethau i wella'r drefn ar gyfer Gorchymyn Mangre o dan Gyfyngiad. Bydd y gofrestr yn caniatáu i awdurdodau lleol orfodi'r ddeddfwriaeth o ran tybaco a chynhyrchion nicotin, er enghraifft mewn perthynas ag oedran gwerthu ac arddangos cynhyrchion tybaco.

Bydd yn rhaid i'r holl fanwerthwyr yng Nghymru sy'n gwerthu naill ai cynhyrchion tybaco neu gynhyrchion nicotin gofrestru gydag Awdurdod Cofrestru i gael caniatâd i werthu'r cynhyrchion hyn. Caiff yr Awdurdod Cofrestru ei nodi yn y Rheoliadau (a allai fod, er enghraifft, yn awdurdod lleol neu gorff arall) i reoli'r gofrestr genedlaethol ar gyfer Cymru gyfan.

Caiff un ffurflen gais ei chyflwyno fesul person i gwmpasu pob mangre lle caiff y cynhyrchion hyn eu gwerthu a bydd taliad cyfatebol[2] yn dod gyda'r ffurflen gais, a fydd yn cyfrannu at gostau gweinyddol cyffredinol y gofrestr. Rhoddir dyletswydd ar y person cofrestredig i roi gwybod i'r Awdurdod Cofrestru am unrhyw newidiadau mewn amgylchiadau er mwyn sicrhau bod y gofrestr yn gyfredol.

---

[2] £30 fydd y ffi i fanwerthwyr gofrestru'r fangre gyntaf a £10 yr un ar gyfer mangreoedd ychwanegol.

Rhaid i'r Awdurdod Cofrestru ganiatáu cais oni bai bod gan fangre neu berson Orchymyn Mangre o dan Gyfyngiad neu Orchymyn Gwerthu o dan Gyfyngiad[3]. Ni chaiff mangre ei chynnwys ar y gofrestr hyd nes bod y Gorchymyn Mangre o dan Gyfyngiad neu'r Gorchymyn Gwerthu o dan Gyfyngiad wedi dod i ben. Mae'r Bil yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru gynnwys troseddau tybaco eraill mewn Gorchymyn Mangre o dan Gyfyngiad, cyn belled â'u bod yn gosb lefel 4 o leiaf a'i bod yn drosedd sy'n ymwneud â chyflenwi, gwerthu, cludo, arddangos, cynnig i werthu, hysbysebu neu feddu ar dybaco neu gynhyrchion nicotin.

Bydd yn drosedd i fangre yng Nghymru werthu tybaco neu gynhyrchion nicotin os nad ydynt ar y gofrestr genedlaethol, ac os bydd person yn methu â rhoi gwybod i'r Awdurdod Cofrestru am newidiadau yn eu hamgylchiadau. Bydd yn ofynnol i berson a geir yn euog o drosedd dalu dirwy, hyd at ac yn cynnwys, lefel 2 (£500) ar y raddfa safonol.

Bydd awdurdodau lleol yn gorfodi'r troseddau. Caiff swyddogion awdurdodau lleol bwerau i fynd i mewn i fangre yng Nghymru os credir fod trosedd wedi, neu wrthi'n, cael ei chyflawni. Ni all swyddogion awdurdodedig fynd i mewn i fangre drwy rym, na mangreoedd a ddefnyddir yn bennaf neu'n gyfan gwbl fel annedd oni bai eu bod yn cael gwarant wedi'i llofnodi gan ynad heddwch. Caiff swyddogion awdurdodedig bwerau arolygu hefyd pan maent yn mynd i mewn i fangre a bydd unrhyw berson sy'n rhwystro swyddog awdurdodedig yn fwriadol yn cyflawni trosedd ac, os canfyddir ei fod yn euog, bydd yn rhaid iddo dalu dirwy, hyd at ac yn cynnwys, lefel 3 (£1,000) ar y raddfa safonol.

Pan fo swyddog awdurdodedig o'r farn bod trosedd wedi'i chyflawni (ar wahân i drosedd o rwystro swyddog awdurdodedig), gall roi hysbysiad cosb benodedig i'r person hwnnw am y drosedd honno.

Rhaid i'r Awdurdod Cofrestru gyhoeddi rhestr sy'n nodi enw pob person cofrestredig a'u mangreoedd. Defnyddir y gofrestr i ddosbarthu gwybodaeth a chanllawiau i fanwerthwyr.

### Pennod 4 Rhoi tybaco ac ati i bobl ifanc o dan 18 oed

Nod y Bil yw lleihau'r risg o bobl ifanc o dan 18 oed yn cael mynediad i dybaco a chynhyrchion nicotin drwy werthu o bell, h.y. drwy'r rhyngrwyd neu dros y ffôn.

Bydd yn drosedd i berson roi tybaco a/neu gynhyrchion nicotin yn fwriadol i berson ifanc o dan 18 oed, sydd heb oedolyn gydag ef. Bydd yn cyfrif fel trosedd dim ond os yw'r person sy'n dosbarthu'r tybaco a/neu gynhyrchion nicotin yn ymwybodol fod y person o dan 18 oed. Er enghraifft, ni fyddai dosbarthu pecyn

[3] Gellir gosod Gorchymyn Mangre o dan Gyfyngiad neu Orchymyn Gwerthu o dan Gyfyngiad ar fangre sydd wedi gwerthu tybaco i bobl ifanc o dan 18 oed yn rheolaidd. Mae Gorchymyn Mangre o dan Gyfyngiad yn atal y fangre rhag gwerthu cynhyrchion tybaco am hyd at flwyddyn. Mae Gorchymyn Gwerthu o dan Gyfyngiad yn atal person rhag gwerthu unrhyw gynhyrchion tybaco na chael unrhyw swyddogaethau rheoli mewn perthynas â chynhyrchion am hyd at flwyddyn.

caeëdig gyda chyfeiriad yn cyfrif fel trosedd.  Cyfrifoldeb y person sy'n rhoi'r tybaco a'r cynhyrchion nicotin yw asesu'n weledol a yw'r person dros 18 oed, a gwirio'r oedran pan fo'n briodol.  Bydd yn ofynnol i berson a geir yn euog o drosedd dalu dirwy, hyd at ac yn cynnwys, lefel 4 (£2,500) ar y raddfa safonol.

## *Rhan 3: Triniaethau arbennig*

Mae triniaethau arbennig, fel y'u disgrifir yn y Bil, yn cynnwys aciwbigo, rhoi twll mewn rhan o'r corff, electrolysis a thatŵio. Diben y cynigion yw sicrhau pan fo triniaethau arbennig yn cael eu gwneud yng Nghymru, eu bod yn cael eu gwneud mewn ffordd nad ydynt yn niweidiol i iechyd. Bwriad y Bil yw gwella safonau mewn perthynas â gwneud triniaethau arbennig, a sicrhau ymagwedd well a chyson i reoleiddio'r triniaethau hyn ledled Cymru.

Bydd y Bil yn creu cynllun trwyddedu gorfodol ar gyfer ymarferwyr a busnesau sy'n gwneud triniaethau arbennig yng Nghymru. Bydd yn drosedd i ymarferydd wneud unrhyw driniaethau arbennig heb drwydded neu wneud unrhyw driniaethau o fangre neu gerbyd nad yw wedi'i gymeradwyo.

Bydd yn ofynnol hefyd i ymarferwyr ddarparu ymgynghoriadau ar ôl triniaethau er mwyn sicrhau bod pobl yn ymwybodol o'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r driniaeth a sut i ymdrin ag unrhyw ôl-ofal gofynnol.

Bydd awdurdodau lleol yn gyfrifol am orfodi'r gofynion trwyddedu ac am gadw'r gofrestr gyhoeddus yn gyfredol.

Caiff y meini prawf trwyddedu a'r amodau trwyddedu gorfodol eu nodi drwy'r Rheoliadau er mwyn sicrhau bod safonau ymarfer a gorfodi triniaethau arbennig yn gyson ledled Cymru.

Darperir ar gyfer y weithdrefn i wneud cais am drwydded triniaeth arbennig, gan gynnwys y broses ar gyfer amrywio, adolygu neu ddiddymu trwydded, yn Atodlen 3 y Bil.

Mae'r Bil yn darparu ar gyfer rhai eithriadau. Er enghraifft, ni fydd yn ofynnol i aelodau o alwedigaeth benodol, fel meddygon, gael trwydded i wneud triniaethau arbennig, oni bai bod y Rheoliadau'n darparu fel arall.

Er mwyn sicrhau bod y ddeddfwriaeth yn parhau'n gyfredol wrth i fathau newydd o driniaethau gael eu datblygu, mae'r Bil yn cynnwys darpariaeth i ddiwygio'r rhestr o driniaethau arbennig. Caiff hyn ei wneud drwy is-ddeddfwriaeth, yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol.

## *Rhan 4: Rhoi twll mewn rhan bersonol o'r corff*

Prif ddiben y darpariaethau hyn yn y Bil yw gwarchod plant a phobl ifanc rhag niweidiau iechyd posibl o gael twll mewn rhan bersonol o'r corff, ac osgoi amgylchiadau ble gall plant a phobl ifanc fod mewn sefyllfa lle maent, o bosibl, yn agored i niwed.

Mae'r Bil yn diffinio twll mewn rhan bersonol o'r corff fel tyllu croen neu bilenni mwcaidd yr anws, y fron (gan gynnwys y deth a'r areola), y ffolen, yr hollt enedigol, y pidyn (gan gynnwys y blaengroen), y perinëwm, y mons pubis, y ceillgwd neu'r fylfa.

O dan y Bil, byd yn drosedd i rywun roi twll mewn rhan bersonol o'r corff ar gyfer person sydd o dan 16 oed, neu wneud trefniadau ar gyfer hynny. Mae hyn yn golygu, hyd yn oed os nad yw person ifanc wedi cael twll mewn rhan bersonol o'r corff, byddai gwneud trefniadau ar gyfer y driniaeth yn cael ei ystyried yn drosedd.

Mae'r Bil yn darparu ar gyfer amddiffyniad 'diwydrwydd dyladwy' ar gyfer person sy'n cynnig rhoi twll mewn rhan bersonol o'r corff, neu'n gwneud hynny, os ydynt yn cymryd camau rhesymol i sicrhau bod y person sy'n gofyn am y driniaeth dros 16 oed, fel gwirio eu hoedran.

Ni fydd y ffaith bod person o dan 16 oed wedi rhoi ei ganiatâd, neu bod rhiant neu warcheidwad wedi rhoi caniatâd ar ei ran, yn amddiffyniad.

Bydd yn ddyletswydd ar awdurdodau lleol i gymryd camau gorfodi mewn perthynas â'r darpariaethau, gan gynnwys trefnu erlyniadau, ymchwilio i gwynion a chymryd camau eraill. Gall y camau hyn gynnwys cyfathrebu ag ymarferwyr sy'n rhoi tyllau mewn rhannau o'r corff a'u haddysgu, neu gynnal arolygiadau 'pryniant prawf' er mwyn asesu cydymffurfiaeth.

Drwy gymryd camau gorfodi, rhaid i awdurdod awdurdodau lleol ymgynghori â'r heddlu fel sy'n briodol.

## *Rhan 5: Gwasanaethau fferyllol*

Nod y Bil yw gwella'r broses o gynllunio a darparu gwasanaethau fferyllol, a chryfhau rôl fferyllfeydd cymunedol yn hyrwyddo a diogelu iechyd y cyhoedd. Mae'n ceisio annog fferyllfeydd i addasu ac ehangu eu gwasanaethau, y tu hwnt i'w rôl weinyddu draddodiadol, mewn ymateb i anghenion lleol.

Bydd y Bil yn ei gwneud yn ofynnol i Fyrddau Iechyd baratoi a chyhoeddi 'asesiadau o anghenion fferyllol' ar gyfer eu hardaloedd. Rhaid parhau i adolygu'r asesiadau hyn.

Caiff y darpariaethau ynghylch amserlenni, yr amgylchiadau lle dylai Byrddau Iechyd adolygu/diwygio ei asesiad, a sut y dylid cyhoeddi asesiadau, eu nodi yn y

Rheoliadau. Gellir gwneud darpariaethau eraill ynghylch cynnal asesiadau, gan gynnwys yr hyn sy'n ffurfio asesiad, i ba raddau y dylent ystyried anghenion yn y dyfodol/materion eraill, ymgynghori, a gofynion gweithdrefnol yn y Rheoliadau.

Mae'r Bil yn diwygio'r prawf 'rheoli mynediad' cyfredol fel bod penderfyniadau ar geisiadau i ymuno â rhestr fferyllol Bwrdd Iechyd yn seiliedig ar p'un a yw'r cais yn diwallu'r angen/anghenion a nodir yn yr asesiad o anghenion fferyllol lleol.  Gall y rheoliadau wneud darpariaeth ar gyfer y weithdrefn y mae'n rhaid i Fyrddau Iechyd ei dilyn wrth ymdrin â cheisiadau a'r materion y mae'n rhaid iddynt eu hystyried.

Pan nad yw Bwrdd Iechyd yn cael ceisiadau i ddarparu'r gwasanaethau fferyllol gofynnol (fel y nodir yn ei asesiad o anghenion fferyllol), gall wahodd ceisiadau i'w cynnwys ar ei restr fferyllol.

O dan y Bil, bydd Byrddau Iechyd hefyd yn gallu tynnu fferyllwyr oddi ar eu rhestrau yn dilyn achosion difrifol a/neu reolaidd o fynd yn groes i delerau ac amodau gwasanaeth.

## *Rhan 6: Darparu Toiledau*

Nod y Bil yw gwella'r broses o gynllunio ar gyfer darparu toiledau cyhoeddus drwy sicrhau bod awdurdodau lleol yn asesu anghenion eu cymunedau mewn perthynas â thoiledau, ac yna defnyddio dull strategol a thryloyw i ddiwallu'r anghenion hynny.

Bydd yn ofynnol i bob awdurdod lleol yng Nghymru baratoi a chyhoeddi strategaeth toiledau lleol ar gyfer ei ardal. Rhaid iddo gynnwys asesiad o angen ei gymuned am doiledau (gan gynnwys cyfleusterau newid ar gyfer babanod a chyfleusterau newid ar gyfer pobl anabl), a rhaid iddo nodi sut y mae'r awdurdod lleol yn bwriadu diwallu'r angen hwn.

Bydd yn ofynnol i awdurdodau lleol ymgynghori â phartïon sydd â diddordeb ar eu strategaethau drafft. Rhaid adolygu strategaethau o leiaf unwaith ym mhob tymor llywodraeth leol.

Gall Llywodraeth Cymru gyflwyno canllawiau i awdurdodau lleol ynghylch paratoi, adolygu neu gyhoeddi strategaethau, a rhaid i awdurdodau lleol eu hystyried.

Ni fydd y ddyletswydd i baratoi strategaeth toiledau lleol ynddi ei hun yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ddarparu a chynnal toiledau cyhoeddus. Rhagwelir y bydd awdurdodau lleol yn ystyried amrywiaeth lawn o opsiynau ar gyfer gwneud cyfleusterau ar gael i'r cyhoedd.

## 3. Goblygiadau Ariannol y Bil

Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn cyflwyno'r opsiynau a ystyriwyd ar gyfer pob rhan o'r Bil, ynghyd â chostau a manteision pob opsiwn ac asesiad o'r graddau y mae'n cyflawni nodau'r Bil.

### Amcangyfrif o gostau ychwanegol a manteision yr opsiwn a ffefrir

Yn Nhabl 1, mae crynodeb o'r costau ychwanegol a'r manteision a allai ddod yn sgil y ddeddfwriaeth, gan ddangos pwy fydd yn talu amdanynt. O ran manteision, nid yw'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn rhoi cyfanswm. Fodd bynnag, pan fo'n bosibl cyfrifo'r manteision, mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud hynny, gan gynnwys y rhai sy'n deillio o newidiadau i'r ffordd y caiff gwasanaethau fferyllol eu darparu. Mae rhagor o fanylion am brif gostau a manteision amcangyfrifedig pob rhan o'r Bil wedi'u nodi o dan y tabl.

**Tabl 1: Costau ychwanegol a manteision yr opsiwn a ffefrir fesul rhanddeiliad rhwng 2016-17 a 2020-21 (mewn £)**

| Cyfanswm y costau i randdeiliaid | 2016-17 | 2017-18 | 2018-19 | 2019-20 | 2020-21 | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Llywodraeth Cymru | 430,800 | 23,800 | -33,700 | -25,500 | -33,700 | 361,700 |
| Awdurdodau Lleol | 288,500 | 642,100 | 309,700 | 296,200 | 273,700 | 1,810,200 |
| Byrddau Iechyd Lleol | 0 | 205,100 | 359,800 | 359,800 | 359,800 | 1,284,500 |
| Mannau cyhoeddus a gweithleoedd | 3,704,700 | 1,294,400 | 501,000 | 498,500 | 498,500 | 6,497,100 |
| Y diwydiant e-sigaréts | 269,600 | 269,600 | 269,600 | 269,600 | 269,600 | 1,348,000 |
| Manwerthwyr tybaco | 80,300 | 248,000 | 13,100 | 52,300 | 13,100 | 406,800 |
| Y cyhoedd | 5,100 | 6,000 | -3,118,600 | -3,122,200 | -3,122,200 | -9,351,900 |
| Ymarferwyr / busnesau tatŵio a thyllu | 46,600 | 430,100 | 80,000 | 81,100 | 306,800 | 944,600 |
| Ymarferwyr tatŵio a thyllu nad ydynt wedi'u cofrestru | 0 | 10,000 | 9,000 | 8,100 | 7,300 | 34,400 |
| Contractwyr fferyllol | 0 | 0 | 73,500 | 73,500 | 73,500 | 220,500 |
| **Cyfanswm costau ychwanegol y Bil** | **4,825,600** | **3,129,100** | **-1,536,600** | **-1,508,600** | **-1,353,600** | **3,555,900** |

Ffynhonnell: Cyfrifiadau Gwasanaeth Ymchwil Cynulliad Cenedlaethol Cymru, **Memorandwm Esboniadol – Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru)** – **ychydig yn wahanol i'r ffigurau yn y tablau cryno ar dudalennau 301-303 o Atodiad B i'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol.**

### *3.1. Crynodeb o'r costau a'r manteision cyffredinol*

Mae tabl 1 yn dangos y bydd y Bil yn cael effaith ariannol ar nifer o sefydliadau a rhanddeiliaid. Gan ystyried y costau a'r manteision, bydd **costau ychwanegol net** y Bil i wahanol randdeiliaid fel a ganlyn:

- Mannau cyhoeddus a gweithleoedd – £6.5 miliwn;
- Awdurdodau lleol – £1.8 miliwn;
- Y diwydiant e-sigaréts – £1.3 miliwn;
- Byrddau Iechyd Lleol – £1.3 miliwn;
- Ymarferwyr a busnesau tatŵio a thyllu – £944,600;
- Manwerthwyr tybaco – £406,800;
- Llywodraeth Cymru – £361,700;
- Contractwyr fferyllol – £220,500;

- Ymarferwyr tatŵio a thyllu nad ydynt wedi'u cofrestru – £34,400; a
- Bydd **manteision net** gwerth £9.35 miliwn i'r cyhoedd.

Ar ôl ystyried holl gostau'r Bil ynhgyd â'r manteision y gellir pennu eu maint, amcangyfrifir y bydd y Bil yn costio £3.6 miliwn ychwanegol rhwng 2016-17 a 2020-21.

Yn nhabl 2, mae dadansoddiad manylach o'r costau i bob sefydliad yn sgil pob rhan o'r Bil.

**Tabl 2: Costau ychwanegol a manteision yr opsiwn a ffefrir ar gyfer pob rhan o'r Bil fesul rhanddeiliad rhwng 2016-17 a 2020-21 (mewn £)**

| Costau | 2016-17 | 2017-18 | 2018-19 | 2019-20 | 2020-21 | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfyngiadau ar ddefnyddio tybaco ac e-sigaréts** | | | | | | |
| Llywodraeth Cymru | 300,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | 300,000 |
| Awdurdodau Lleol | 19,300 | -1,500 | -1,900 | -900 | -2,700 | 12,300 |
| Mannau cyhoeddus a gweithleoedd | 3,704,700 | 1,294,400 | 501,000 | 498,500 | 498,500 | 6,497,100 |
| Y diwydiant e-sigaréts | 269,600 | 269,600 | 269,600 | 269,600 | 269,600 | 1,348,000 |
| Y cyhoedd | 5,100 | 6,000 | 6,200 | 2,600 | 2,600 | 22,500 |
| **Cyfanswm costau cyfyngiadau ar ddefnyddio tybaco ac e-sigaréts** | **4,298,700** | **1,568,500** | **774,900** | **769,800** | **768,000** | **8,179,900** |
| **Cofrestr o fanwerthwyr tybaco a chynhyrchion nicotin** | | | | | | |
| Llywodraeth Cymru | 26,500 | 8,700 | 0 | 0 | 0 | 35,200 |
| Awdurdodau Lleol | 6,500 | -116,800 | 15,000 | 16,400 | 15,000 | -63,900 |
| Manwerthwyr tybaco | 0 | 246,000 | 11,100 | 11,100 | 11,100 | 279,300 |
| **Cyfanswm costau'r gofrestr o fanwerthwyr tybaco a chynhyrchion nicotin** | **33,000** | **137,900** | **26,100** | **27,500** | **26,100** | **250,600** |
| **Rhoi tybaco i bobl ifanc o dan 18 oed** | | | | | | |
| Llywodraeth Cymru | 15,900 | 0 | 0 | 1,400 | 0 | 17,300 |
| Awdurdodau Lleol | 125,700 | 72,000 | 72,000 | 72,000 | 72,000 | 413,700 |
| Manwerthwyr tybaco | 80,300 | 2,000 | 2,000 | 41,200 | 2,000 | 127,500 |
| **Cyfanswm costau rhoi tybaco i bobl ifanc o dan 18 oed** | **221,900** | **74,000** | **74,000** | **114,600** | **74,000** | **558,500** |
| **Triniaethau arbennig** | | | | | | |
| Llywodraeth Cymru | 61,500 | -2,500 | -2,500 | 3,100 | -2,500 | 57,100 |
| Awdurdodau Lleol | 61,000 | 234,000 | 178,400 | 162,500 | 143,200 | 779,100 |
| Ymarferwyr / busnesau tatŵio a thyllu | 0 | 387,700 | 37,600 | 36,600 | 264,400 | 726,300 |
| Ymarferwyr nad ydynt wedi'u cofrestru | 0 | 10,000 | 9,000 | 8,100 | 7,300 | 34,400 |
| **Cyfanswm costau triniaethau arbennig** | **122,500** | **629,200** | **222,500** | **210,300** | **412,400** | **1,596,900** |
| **Gwahardd rhoi twll mewn rhan bersonol o'r corff i bobl ifanc o dan 16 oed** | | | | | | |
| Llywodraeth Cymru | 18,500 | 0 | 0 | 1,200 | 0 | 19,700 |
| Awdurdodau Lleol | 76,000 | 76,000 | 38,000 | 38,000 | 38,000 | 266,000 |
| Ymarferwyr / busnesau tatŵio a thyllu | 46,600 | 42,400 | 42,400 | 44,500 | 42,400 | 218,300 |
| **Cyfanswm costau gwahardd rhoi twll mewn rhan bersonol o'r corff i bobl ifanc o dan 16 oed** | **141,100** | **118,400** | **80,400** | **83,700** | **80,400** | **504,000** |
| **Newidiadau i'r gwasanaethau fferyllol a ddarperir** | | | | | | |
| Llywodraeth Cymru | 0 | 17,600 | -31,200 | -31,200 | -31,200 | -76,000 |
| Byrddau Iechyd Lleol | 0 | 205,100 | 359,800 | 359,800 | 359,800 | 1,284,500 |
| Contractwyr | 0 | 0 | 73,500 | 73,500 | 73,500 | 220,500 |
| Manteision iechyd ac amser teithio i'r cyhoedd | 0 | 0 | -3,124,800 | -3,124,800 | -3,124,800 | -9,374,400 |
| **Cyfanswm costau newidiadau i'r gwasanaethau fferyllol a ddarperir** | **0** | **222,700** | **-2,722,700** | **-2,722,700** | **-2,722,700** | **-7,945,400** |
| **Strategaeth darparu toiledau** | | | | | | |
| Llywodraeth Cymru | 8,400 | 0 | 0 | 0 | 0 | 8,400 |
| Awdurdodau Lleol | 0 | 378,400 | 8,200 | 8,200 | 8,200 | 403,000 |
| **Cyfanswm costau strategaeth darparu toiledau** | **8,400** | **378,400** | **8,200** | **8,200** | **8,200** | **411,400** |
| **Cyfanswm costau ychwanegol y Bil** | **4,825,600** | **3,129,100** | **-1,536,600** | **-1,508,600** | **-1,353,600** | **3,555,900** |

Ffynhonnell: Cyfrifiadau Gwasanaeth Ymchwil Cynulliad Cenedlaethol Cymru, **Memorandwm Esboniadol – Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru) – ychydig yn wahanol i'r ffigurau yn y tablau cryno ar dudalennau 301-303 o Atodiad B i'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol.**

## *3.2. Cynigion ynghylch cyfyngiadau ar ddefnyddio tybaco a chynhyrchion e-sigaréts mewn mannau cyhoeddus.*

Mae'r adran hon o'r Bil yn cyfyngu ar y defnydd o ddyfeisiau mewnanadlu nicotin, fel sigaréts electronig, mewn mannau cyhoeddus a gweithleoedd caeëdig a sylweddol gaeëdig.

**Y rhan hon o'r Bil sydd â'r costau ychwanegol uchaf o blith holl elfennau'r Bil, sef £8.2 miliwn rhwng 2016-17 a 2020-21, ar ôl ystyried manteision posibl y Bil.** Mannau cyhoeddus a gweithleoedd fydd yn talu £6.5 miliwn o'r costau hyn. Bydd angen iddynt ddiweddaru eu polisïau di-fwg a byddant yn wynebu cost yn gysylltiedig â cholli oriau gwaith gan fod angen i ysmygwyr e-sigaréts gymryd seibiannau er mwyn ysmygu. At hynny, amcangyfrifir y bydd busnesau e-sigaréts yn gwneud colled o tua £1.3 miliwn yn sgil gwerthu llai o gynhyrchion yn ystod y cyfnod hwn. Bydd Llywodraeth Cymru yn talu costau ychwanegol o £300,000 yn 2016-17 ar gyfathrebu gyda busnesau a'r cyhoedd (£200,000) ac arwyddion ar gyfer mannau di-fwg (£100,000). Bydd y cyhoedd ac awdurdodau lleol yn talu mân gostau ychwanegol o £22,500 a £12,300 yn y drefn honno.

Mae tudalennau 119 i 130 o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn trafod manteision posibl yr elfen hon o'r Bil i awdurdodau lleol, y cyhoedd a gweithleoedd.

## *3.3. Creu cofrestr o fanwerthwyr tybaco a chynhyrchion nicotin*

Mae'r elfen hon o'r Bil yn creu cofrestr genedlaethol y mae'n rhaid i fanwerthwyr tybaco a chynhyrchion nicotin gael eu cofrestru arni. **Mae'r costau ychwanegol a nodir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn gymharol fach, sef £265,000 rhwng 2016-17 a 2020-21, ar ôl ystyried yr arbedion.** Bydd manwerthwyr yn wynebu ychydig o dan £295,000 o gostau ychwanegol yn ystod y cyfnod hwn, tra bydd awdurdodau lleol yn arbed tua £64,000 am fod refeniw ffioedd yn talu am gostau gweinyddol ychwanegol y cynllun. Fodd bynnag, nid yw'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn cynnwys amcangyfrif o gostau gorfodi'r awdurdodau lleol. Bydd Llywodraeth Cymru yn ysgwyddo tua £35,000 o fân gostau ychwanegol am ddatblygu'r gofrestr, cyfathrebu a chyhoeddusrwydd.

## *3.4. Gwahardd rhoi tybaco neu gynhyrchion nicotin i bobl ifanc o dan 18 oed*

Yn gyffredinol, **amcangyfrifir y bydd ychydig o dan £560,000 o gostau ychwanegol yn deillio o'r adran hon o'r Bil rhwng 2016-17 a 2020-21.** Awdurdodau lleol fydd yn ysgwyddo'r rhan fwyaf o'r costau hyn, gan dalu ychydig o dan £415,000 o gostau ychwanegol, yn bennaf ar bryniannau prawf gan adrannau safonau masnach ac ar gostau staff. At hynny, bydd manwerthwyr yn ysgwyddo tua £130,000 o gostau i ddatblygu telerau ac amodau a pholisïau ar

ddarparu cynhyrchion tybaco, a bydd Llywodraeth Cymru yn talu £17,000 o gostau ychwanegol ar hyfforddiant a chanllawiau.

## *3.5. Cyflwyno system drwyddedu ar gyfer triniaethau arbennig*

Bydd y Bil yn creu system drwyddedu ar gyfer pedair math o driniaeth arbennig, sef aciwbigo, rhoi twll mewn rhan o'r corff, electrolysis a thatŵio.

Yr elfen hon o'r Bil sydd â'r **costau ychwanegol uchaf ond un o blith holl rannau'r Bil, sef £1.6 miliwn yn ystod y cyfnod rhwng 2016-17 a 2020-21.** Ar y cyfan, caiff y costau hyn eu rhannu rhwng awdurdodau lleol (£780,000) ac ymarferwyr sydd wedi'u cofrestru a rhai nad ydynt wedi'u cofrestru (£760,000).

Mae **costau ychwanegol** yr awdurdodau lleol yn cynnwys y rhai ar gyfer gwahardd gwaith sydd heb ei drwyddedu, cyhoeddi Hysbysiadau Camau Adfer i fangreoedd nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau'r drwydded a chostau cyffredinol eraill. Yn ôl yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, bydd yr incwm gan ymarferwyr sy'n cael eu cofrestru i roi triniaethau arbennig yn talu am y costau cofrestru a'r costau yn sgil adnewyddu trwyddedau.

Bydd y **costau ychwanegol** i ymarferwyr yn cynnwys ymgyfarwyddo â'r ddeddfwriaeth newydd, costau cofrestru a chostau cyfle yng nghyswllt gwneud cais am drwydded. Mae costau ychwanegol am fynd yn groes i Hysbysiadau Camau Adfer hefyd, sy'n arwain at ddirwy, ac i nifer fach o ymarferwyr nad ydynt wedi'u cofrestru a fyddai'n cael hysbysiad stop i'w hatal rhag rhoi triniaethau arbennig.

Byddai Llywodraeth Cymru yn talu ychydig yn llai na £60,000 o gostau am ddatblygu a dosbarthu canllawiau, sesiynau hyfforddi i swyddogion iechyd yr amgylchedd a chodi ymwybyddiaeth.

## *3.6. Gwahardd rhoi twll mewn rhan bersonol o'r corff i bobl ifanc o dan 16 oed*

**Mae'r elfen hon o'r Bil yn golygu ychydig dros £500,000 o gostau ychwanegol dros y pum mlynedd rhwng 2016-17 a 2020-21.** Bydd awdurdodau lleol yn ysgwyddo £265,000 o gostau ychwanegol yn ystod y cyfnod hwn am gostau staff i gefnogi busnesau i gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth. At hynny, bydd ymarferwyr yn ysgwyddo ychydig o dan £220,000 o gostau yn sgil colli busnes, ymgyfarwyddo â'r ddeddfwriaeth newydd, a dirwyon i'r nifer fach o fusnesau y canfyddir eu bod yn rhoi triniaethau sydd wedi'u gwahardd. Bydd Llywodraeth Cymru yn ysgwyddo tua £20,000 o fân gostau am ganllawiau, hyfforddiant a chyfathrebu.

## *3.7. Gwasanaethau fferyllol*

Bydd yr adran hon o'r Bil yn cyflwyno system sy'n seiliedig ar angen yn lle'r system bresennol ar gyfer darparu gwasanaethau fferyllol. Bydd y system newydd yn

defnyddio Asesiadau o Anghenion Fferyllol ac yn cyflwyno trefn rheoli perfformiad i'w gwneud yn bosibl cymryd camau i fynd i'r afael â darparwyr sy'n tanberfformio, gan gynnwys trefn ymadael. **Er y bydd £1.3 miliwn o gostau ychwanegol i Fyrddau Iechyd Lleol rhwng 2016-17 a 2020-21, a £220,000 o gostau i gontractwyr fferyllol, yn ôl yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, bydd manteision iechyd ac amser teithio gwerth £9.4 miliwn i'r cyhoedd yn fwy na chyfiawnhau'r costau hynny.** Bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn arbed £76,000 oherwydd gostyngiad yng nghostau yr apeliadau i Weinidogion Cymru a wneir gan fferyllfeydd, a bydd hynny'n fwy na chyfiawnhau'r gost o baratoi'r canllawiau.

Mae'r costau ychwanegol i Fyrddau Iechyd Lleol wedi'u seilio ar gostau cynnal Asesiadau o Anghenion Fferyllol, comisiynu gwasanaethau ychwanegol i ddiwallu anghenion fferyllol a rheoli contractwyr fferyllol sy'n tanberfformio. Bydd contractwyr fferyllol yn ysgwyddo costau am ddarparu gwybodaeth i alluogi Byrddau Iechyd Lleol i asesu eu perfformiad, ac i ymateb i gamau a gymerwyd i fynd i'r afael â pherfformiad gwael.

Mae'r manteision iechyd wedi'u cyfrifo ar sail amcangyfrif y bydd y gwasanaethau fferyllol a ddarperir yn cynnyddu 20 y cant. Er mwyn rhoi amcangyfrif ceidwadol o'r manteision posibl yn sgil hyn, mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn pennu maint manteision y gwasanaethau i roi'r gorau i ysmygu a leolir mewn fferyllfeydd ar dudalennau 212 i 216. Ar sail cynnydd 20 y cant yn y gwasanaethau a ddarperir o 2018-19, amcangyfrifir y **bydd manteision o £2.7 miliwn y flwyddyn rhwng 2018-19 a 2020-21, sef cyfanswm gwerth £8.1 miliwn o fanteision yn ystod y cyfnod hwn.**

Mae'r manteision o ran amser teithio wedi'u seilio ar yr amcangyfrif na fydd angen teithio mor bell i fferyllfeydd, o ganlyniad i ddarpariaeth well a fferyllfeydd newydd mewn ardaloedd lle nad yw'r galw'n cael ei ateb. **Yr amcangyfrif yw £425,000 y flwyddyn rhwng 2018-19 a 2020-21, sef cyfanswm o ychydig yn llai nag £1.3 miliwn o fanteision yn ystod y cyfnod hwn.**

### *3.8. Datblygu strategaeth ar gyfer darparu toiledau cyhoeddus*

Bydd yn ofynnol i bob un o'r awdurdodau lleol baratoi strategaeth ar gyfer darparu toiledau cyhoeddus yn unol â'r rhan hon o'r Bil. Nid yw'r Bil yn cynnwys gofynion i ddarparu toiledau cyhoeddus. Bydd cyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer gwella mynediad i doiledau yn aros yr un fath o dan yr opsiwn hwn, sef £200,000. Bydd **ychydig yn fwy na £410,000 o gostau ychwanegol yn sgil yr elfen hon o'r Bil, ac awdurdodau lleol fydd yn talu am ychydig dros £400,000 o'r costau hynny.** Bydd awdurdodau lleol yn ysgwyddo'r gost o ddatblygu strategaethau ac ymgynghori arnynt, a rhai mân gostau ychwanegol yn sgil rheoli'r broses o ddyrannu grantiau i fusnesau, gan ganiatáu i bobl ddefnyddio toiledau cyhoeddus

am ddim. At hynny, bydd Llywodraeth Cymru yn ysgwyddo rhai mân gostau ychwanegol wrth baratoi ac adolygu canllawiau.

## 4. Ymatebion i'r Bil

Cafodd y Bil ei gyflwyno yn y Cyfarfod Llawn gan Mark Drakeford AC, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, ar 9 Mehefin 2015. Cafodd y materion a ganlyn eu codi gan yr Aelodau.

Yn ei gyflwyniad, nododd y **Gweinidog** na chaiff dau fater a geir ym Mhapur Gwyrdd iechyd y cyhoedd eu cynnwys yn y Bil: isafswm pris uned ar gyfer alcohol a fydd, oherwydd yr achos cyfredol yn erbyn Llywodraeth yr Alban yn Llys Ewrop, yn amodol ar Fil drafft Llywodraeth Cymru a gyhoeddir cyn toriad yr haf, (sydd wedi'i gyhoeddi yn dilyn hyn) a chyflwyno safonau maethol mewn lleoliadau cyn-ysgol a chartrefi gofal a gaiff eu gweithredu mewn ffyrdd eraill, fel is-ddeddfwriaeth.

Croesawodd **Andrew RT Davies**, arweinydd y Ceidwadwyr Cymreig, y gofyniad ar awdurdodau lleol i lunio strategaethau ar ddarparu toiledau yn eu hardaloedd, ond roedd am gael gwybod sut y byddai hyn yn arwain at ddarpariaeth well. Croesawodd hefyd yr elfennau ar fferyllfeydd cymunedol yn y Bil, ond cwestiynodd sut y byddent yn galluogi Byrddau Iechyd ac eraill i gomisiynu gwasanaethau fferyllol sy'n cyfrannu at iechyd gwell ar gyfer y cyhoedd. Roedd yn cwestiynu'r angen am reoleiddio tatŵyddion, a allai fod yn feichus o bosibl, ac awgrymodd y gall cryfahu rôl reoleiddio cyrff proffesiynol fod yn ddewis gwell. Roedd yn gwrthwynebu'r cynnig i wahardd y defnydd o e-sigaréts mewn mannau cyhoeddus, gan gredu bod ganddynt rôl i'w chwarae yn lleihau'r defnydd o dybaco ac roedd am gael eglurhad gan y Gweinidog ar unrhyw gynlluniau i ymestyn y gwaharddiad i fannau agored yn y dyfodol.

Dywedodd y **Gweinidog** y bydd y gwaith o ddatblygu strategaethau'r awdurdodau lleol ar doiledau yn cynnwys ystyried sut i wneud y defnydd gorau o gyfleusterau cyfredol sydd eisoes yn cael eu hariannu drwy gyllid cyhoeddus, fel y rheini mewn canolfannau chwaraeon a chanolfannau hamdden. Dywedodd y bydd yr asesiadau newydd o anghenion fferyllol yn caniatáu i Fyrddau Iechyd annog fferyllfeydd newydd i ddarparu'r ystod ehangach o wasanaethau sy'n gysylltiedig ag iechyd y cyhoedd. Cadarnhaodd y Gweinidog ei fod yn bwriadu cyflwyno Rheoliadau o dan y Bil, os caiff ei basio, er mwyn ymestyn y gwaharddiad ysmygu i dir ysbytai, caeau chwarae a meysydd chwarae i blant.

Gofynnodd **John Griffiths** i'r Gweinidog a fyddai'r gofrestr arfaethedig ar gyfer triniaethau arbennig yn atal achos arall o ran hylendid a ddigwyddodd yn ddiweddar mewn stiwdio tatŵio yng Nghasnewydd, ac a yw'r Bil wedi'i ddiogelu ar gyfer y dyfodol o ran tueddiadau newidiol mewn rhoi tyllau mewn rhannau o'r corff a thriniaethau tebyg.

Ymatebodd y **Gweinidog** y bydd yn ofynnol i ymarferwyr a mangreoedd sy'n ymwneud â thriniaethau arbennig gael trwydded. Bydd y gofrestr ar gyfer triniaethau arbennig ar gael yn gyhoeddus ac mae'r Bil wedi'i ddiogelu ar gyfer y dyfodol drwy gynnwys pwerau gwneud rheoliadau sy'n caniatáu i Weinidogion ychwanegu

triniaethau arbennig eraill at y gofrestr.  Gallai triniaethau arbennig, er enghraifft, gynnwys cael gwared ar datŵs.

Gofynnodd **Elin Jones** i'r Gweinidog pam ei fod yn cynnig ei gwneud yn ddyletswydd ar awdurdodau lleol i lunio strategaeth ar ddarparu toiledau cyhoeddus, yn hytrach na dyletswydd i ddarparu'r toiledau eu hunain.  Roedd yn pryderu bod darpariaeth o'r fath yn cael ei rhwystro gan ddiffyg adnoddau.

Roedd yn cwestiynu'r gwerth o wahardd e-sigaréts o ystyried barn ASH, Ymchwil Canser a Choleg Brenhinol y Meddygon eu bod yn helpu i leihau ysmygu tybaco, ac roedd yn gobeithio y byddai'r Gweinidog yn cadw meddwl agored ynghylch y mater er mwyn osgoi tanseilio consensws mewn cefnogaeth o'r darpariaethau eraill yn y Bil. Roedd yn awyddus i wybod pam na chaiff y Bil ei ddefnyddio fel ffordd o leihau faint o ddiodydd llawn siwgr a yfir, mater a amlygwyd gan Sefydliad Iechyd y Byd.

Nododd y **Gweinidog** nad oedd yn credu y byddai'n briodol ei gwneud yn ddyletswydd ar awdurdodau lleol i ddarparu toiledau heb allu darparu'r adnoddau ychwanegol y byddai eu hangen arnynt i'w gweithredu.  Byddai cyhoeddi strategaeth yn gwella perfformiad awdurdodau lleol a'u hatebolrwydd i etholaethau lleol.  Heb dystiolaeth gadarn ynghylch effeithiau e-sigaréts, cred ei bod yn well mabwysiadu'r egwyddor ragofalus a'u gwahardd mewn mannau cyhoeddus nawr.  Eglurodd nad oes gan y Cynulliad y pwerau deddfwriaethol i fabwysiadu dull tebyg yn achos siwgr, ond bod cyfyngiadau ar fannau gwerthu yn faes sy'n werth ei ystyried.

Nid oedd **Kirsty Williams** wedi'i darbwyllo bod aciwbigo, lliwio'r croen yn lled barhaol ac electrolysis yn peri'r un risgiau o ran iechyd â thriniaethau eraill yn y gofrestr arfaethedig o driniaethau arbennig.  Roedd yn awyddus i gael gwybod maint y broblem o ran fferyllfeydd cymunedol nad ydynt yn darparu mwy o wasanaethau. Roedd yn u'r cynigion ynghylch toiledau cyhoeddus ond am gael gwybod sut y byddant yn gwella'r ddarpariaeth.  Roedd yn feirniadol o'r darpariaethau yn y Bil i wahardd e-sigaréts a nododd dystiolaeth y gallai gwaharddiad o'r fath arwain at wrthdroi'r dirywiad mewn defnydd o dybaco.

Dywedodd y **Gweinidog** bod y pedwar math o driniaeth arbennig a nodir yn y Bil i gyd yn ymwneud â rhoi twll mewn rhan o'r corff, ac felly bod gan bob un ohonynt risgiau iechyd posibl os na chânt eu gwneud yn gywir.  Byddai'r Bil yn cryfhau'r pwerau sydd ar gael i awdurdodau lleol reoleiddio'r triniaethau hyn.  Dywedodd fod amrywiaeth eang o ddarpariaethau iechyd y cyhoedd ymhlith fferyllfeydd cymunedol ac y byddai asesiad o anghenion fferyllol yn galluogi Byrddau Iechyd i nodi'r bylchau mewn darpariaeth. Dywedodd nad oes unrhyw beth yn y Bil sy'n atal y defnydd o e-sigaréts er mwyn lleihau'r defnydd o dybaco.

Croesawodd **Keith Davies** y ddarpariaeth yn y Bil i atal rhoi cynhyrchion tybaco i bobl ifanc o dan 18 oed.

Gofynnodd **Mark Isherwood** pam nad oes llawer o sôn yn y Bil am frechiadau, o ystyried yr angen i gynyddu niferoedd.  Roedd yn feirniadol o'r cynnig i wahardd e-sigaréts.

Roedd y Gweinidog yn cydnabod bod brechiadau yn fesur pwysig iawn o ran iechyd y cyhoedd, ond dywedodd nad oes unrhyw gynlluniau i'w gwneud yn orfodol.

Awgrymodd **Alun Davies** y gellid codi'r mater o ran cymhwysedd i gyflwyno treth ar siwgr gyda Llywodraeth y DU.  Cytunodd gyda safbwynt y Gweinidog ar e-sigaréts a chred y dylid cael gwared ar ysmygu'n gyfan gwbl yn gyhoeddus, fel mae'r Ffindir yn gobeithio ei wneud.  Gofynnodd i'r Gweinidog am ragor o fanylion am y gofrestr o fanwerthwyr tybaco.

Cadarnhaodd y **Gweinidog** y bydd y gofrestr o fanwerthwyr tybaco yn orfodol, y bydd y taliadau cofrestru yn talu am y costau gorfodi yn rhannol ac y caiff manwerthwyr e-sigaréts eu cynnwys.  Dywedodd y bydd y gofrestr yn cydgrynhoi system anghyfartal, gan wneud y broses o orfodi cyfreithiau ynghylch tybaco yn haws.